


Beibl i Blant yn cyflwyno



Dafydd y Brenin (Rhan 1)



Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: Lazarus

Cyfieithydd: Catrin Roberts
addaswyd gan: Ruth Klassen

Stori 20 o 60

www.M1914.org

Bible for Children, PO Box 3, Winnipeg, MB R3C 2G1 Canada

Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Welsh

Roedd Dafydd ar ffo. Roedd y Brenin Saul eisiau ei ladd. Roedd Dafydd yn byw allan yn yr anialwch, mewn ogof fawr ac roedd ganddo bedwar cant o ddynion yn ei gefnogi.



Roedd milwyr y Brenin Saul bron â dod o hyd iddyn nhw. Ond daliodd Dafydd ati i symud o le i le.



Dyweddodd Doeg, gwas Saul, wrth y brenin fod yr offeiriaid wedi helpu Dafydd i ddianc. Rhoddodd Saul orchymyn - roedden nhw i gael eu lladd. Ond dim ond Doeg oedd yn fodlon gwneud hyn! Fe

laddodd e wyth deg pump o offeiriaid a'u teuluoedd gyda'i gleddyf. Dyna ofnadwy!




3



Un diwrnod, roedd Saul yn chwilio am Dafydd ac fe gerddodd i mewn i'r union ogof lle roedd Dafydd a'i ddynion yn cuddio. Roedd Saul ar ben ei hun!

4

Byddai Dafydd wedi gallu lladd Saul yn yr ogof.



Ond yn lle hynny, aeth Dafydd yn ddistaw bach a thorri cornel mantell Saul gyda'i ddagr.

5


Aeth Saul allan o'r ogof a galwodd Dafydd ar ei ôl, "Dw i wedi torri cornel dy fantell di ond wnes i ddim dy ladd.




Dw i isio i ti ddeall nac ydw i'n bwriadu dim drwg i ti a dydw i ddim yn gwrthryfela...."

6

Dyweddodd Saul fod yn ddrwg ganddo fe am geisio brifo Dafydd. Ond daeth ei hen dymer yn ôl, a dyma fe'n casglu byddin o dair mil o ddynion er mwyn lladd Dafydd. Un noson, tra roedd y fyddin yn cysgu, sleifiodd Dafydd ac Abishai, un o'i filwyr, i mewn i wersyll y brenin. Roedd y brenin yn cysgu yno.




7




"Mae Duw wedi rhoi dy elyn i ti heddiw," sibrydodd Abishai, "Gad i mi ei drywanu a'i hoelio i'r ddaear gyda gwaywffon. Un ergyd fydd ei angen."

8




"Na," oedd ateb Dafydd. Dyma Dafydd yn cymryd y waywffon a'r botel ddŵr oedd wrth ymyl Saul, a gadael y gwersyll. Aeth i gopa mynydd a galw nes bod Saul yn ei glywed.

9



Unwaith eto, gwelodd Saul y gallai Dafydd fod wedi ei ladd. Unwaith eto, dywedodd Saul fod yn ddrwg ganddo am geisio gwneud drwg i Dafydd. Ond doedd Dafydd ddim yn ei drystio.

10




Erbyn hyn roedd Samuel wedi marw. Roedd Duw wedi dweud wrth y proffwyd hwn am wneud Saul, ac yna Dafydd yn frenin Israel. Pan ymosododd y Philistiaid ar Israel, fe wnaeth Saul rywbeth ofnadwy, rhywbeth oedd yn erbyn rheolau Duw.

11



Dywedodd wrth wraig am gonsurio a gwneud i Samuel ddod atyn nhw. Y noson honno, cafodd Saul neges.

12



"... Mae'r ARGLWYDD wedi troi cefn arnat ti a thro'i'n elyn i ti ... mae'r ARGLWYDD wedi rhwygo'r deyrnas oddi arnat ti a'i rhoi hi i Dafydd. Erbyn fory byddi di a dy feibion yn yr un lle â mi. Bydd yr ARGLWYDD yn rhoi byddin Israel yn nwylo'r Philistiaid." Pan glywodd Saul hyn, syrthiodd ar ei liniau mewn ofn.

13



Fe wnaeth y Philistiaid ymladd yn erbyn Israel, ac aeth milwyr Israel ar ffo. Cafodd meibion Saul, gan gynnwys Jonathan, ffrind agos Dafydd, eu lladd.


14

Cafodd Saul ei anafu'n ddifrifol gan fwyasaethwyr. Dywedodd wrth y gwas oedd yn cario ei arfau. "Cymer dy gleddyf a thrywana fi. Paid gadael i'r paganiaid yma ddod i'm cam-drin i a'm lladd i." Ond roedd gan y gwas ofn gwneud hynny. Dyma Saul yn cymryd y cleddyf ac yn syrthio arno.



15

Daeth y Philistiaid o hyd i gyrff Saul a'i feibion. Fe wnaethon nhw grogi'r gyrff ar waliau un o ddinasoedd Israel. Daeth rhai milwyr dewr yno ac achub y gyrff a mynd a nhw oddi yno a'u llosgi, cyn claddu'r llwch yn Israel.



16

Pan glywodd Dafydd y newyddion drwg, roedd yn drist, a dyma fe'n llefain a gwrthod bwyta wrth iddo fe alaru dros Saul, Jonathan ei fab, a byddin yr ARGLWYDD, pobl Israel oedd wedi cael eu lladd yn y frwydr.



17

Er bod Saul wedi ceisio lladd Dafydd, roedd Dafydd wedi dangos parch at Saul am fod Duw wedi ei ddewis yn frenin. Nawr, cafodd Dafydd ei anrhydeddu gan Dduw a'i wneud yn frenin yn lle Saul.



18

Dafydd y Brenin (Rhan 1)

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

1 Samuel 24-31, 2 Samuel 1-2

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Y gosb am bechod ydy marwolaeth.

Mae Duw yn ein caru ni gymaint, fe wnaeth e anfon ei Fab, Iesu, i farw ar Groes. Fe wnaeth e gymryd ein cosb ni. **Daeth Iesu yn fyw eto** ac aeth yn ôl i'r Nefoedd! Nawr gall Duw faddau ein pechodau.

Os wyt ti am droi oddi wrth dy bechodau, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Dduw, rwy'n credu bod Iesu wedi marw drosaf fi a'i fod yn fyw eto. Os gweli'n dda tyrd i mewn i'm mywyd a maddau fy mhechodau, er mwyn i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna cael bod gyda Thi am byth. Helpa fi i fyw fel plentyn i ti. Amen. Ioan 3:16

Cofia ddarllen y Beibl a siarad bob dydd gyda Duw!